**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Luke Fletcher AS
Cadeirydd
Prentisiaethau - Grŵp Trawsbleidiol

Joyce Watson AS
Cadeirydd
Prentisiaethau - Grŵp Trawsbleidiol

25 Chwefror 2025

Annwyl Luke a Joyce,

**Llwybrau prentisiaeth**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swyddi fel cyd-Gadeiryddion y Grŵp Trawsbleidiol ar Brentisiaethau. Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i llwybrau prentisiaeth. Roeddem yn teimlo y gallai fod gan y Grŵp Trawsbleidiol fewnbwn gwerthfawr o ran y materion yr ydym yn eu trafod. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth yr hoffai'r Grŵp ei darparu ar y materion yr ydym ni'n eu trafod, sef:

- Llwybrau rhwng lefelau prentisiaeth: I ba raddau y mae heriau o ran mapio llwybrau gyrfa drwy wahanol lefelau o brentisiaeth, megis o brentisiaeth iau i radd-brentisiaeth. A yw hyn yn anoddach mewn rhai gyrfaoedd/sectorau nag eraill.

- Yr economi: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn cefnogi anghenion busnesau Cymru ac yn cyfrannu at lenwi bylchau o ran sgiliau yn economi Cymru.

- Cyflogwyr: Ymgysylltu cyflogwyr â'r gwaith o hwyluso'r llwybrau hyn a denu prentisiaid. A oes angen cymorth penodol i helpu microfusnesau a busnesau bach a chanolig i ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaethau.

- Gwybodaeth am brentisiaethau: Arfer dda rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon.

- Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn agored i holl bobl ifanc Cymru ac unrhyw rwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol o ran demograffig neu ardal ddaearyddol.

- Rôl Llywodraeth Cymru: Sut y mae polisïau'n cefnogi llwybrau prentisiaeth ac unrhyw rwystrau sy'n rhaid ymdrin â nhw yn hynny o beth. Rôl Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill o ran nodi a chyfleu anghenion economaidd ac anghenion o ran sgiliau i helpu i lywio fframweithiau prentisiaeth a'r ffordd y caiff cymwysterau eu cynnig.

Diolch i chi am gymryd amser i ystyried y cais hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 14 Mawrth.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg